**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR RAGFYR 6ed, 2022**

**Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL am 7.30 y.h.**

**Yn bresennol** Cyng. Maldwyn Lewis (cadeirydd), Cyng. Ceri Jones, Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Mark Davies, Cyng. Roger Davies, Cyng. Sian Williams, Cyng. Llŷr Evans, Cyng. Teifi Evans, Cyng. Carol Davies

Croesawyd Aled Griffiths a Louis Hunt o'r Gwasanaeth Tân

**Ymddiheuriadau** Cyng. Rob Jones

**Clerc** Rhian Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorydd Rob Jones.<br>, | | |
| 2 | Cadarnhau | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion mis Tachwedd.<br><br>Cynigiodd Cyng. Emyr Jones fod y cofnodion yn gywir ac roedd pawb yn gytun. | | |
| 3 | Cyflwyniad Swyddog Awdurdod Tân | Mae'r Gwasanaeth Tân yn cyd-weithio gyda'r gymuned i'w gwneud yn fwy diogel. Maent yn cynnig gwasanaeth am ddim trwy fynd o gwmpas cartrefi i wneud 'gwiriad tân diogelwch yn y cartref.' Maent yn cynnig gosog larymau mŵg a carbon monoxide. Gallant hefyd gynnig Gwasanaeth diogelwch rhag tân yn y cartref neu gyd-weithio gyda ffermydd i greu cynllun tân sy'n parhau am 3 mlynedd.<br>Mae'r Gwasanaeth wedi budddsoddi llawer gydag adnoddau i ddiogelu'r gymuned gan gynnwys cerbydau Ymatebwyr cyntaf ac offer achub dŵr. Cafodd pob Cynghorydd gopi o lyfryn gyda manylion i gysylltu os yn poeni am rhywun.<br>Holodd y Cyng. Mark Davies os oedd modd cael gwybodaeth am Systemau sprinkler ar gyfer hen adeiladau. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Dim | | |
| 5. | Datgan diddordeb | Y Cyng.Sharon Thomas ynghlŷn a'r coed Nadolig i'r pentrefi – cost y coed a'u dosbarthu. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Nododd y Cyng. Maldwyn Lewis fod Tîm C.C. Ceredigion 'Energy Efficency' wedi derbyn gwobr 3ydd lle y mis diwethaf gwobr 3ydd lle y mis diwethaf<br>Mae Ceredigion Service Board yn derbyn sylwadau wrth y cyhoedd os hoffai rhywun leiasio barn.<br><br>Mae dogfen ar gael Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022- 2027' sef gweledigaeth y sir a sut byddant yn gwario arian yn y dyfodol.<br><br>Mae llyfryn newydd wedi ei gyhoeddi i gefnogi rhieni maeth, yn bennaf wedi ei anelu at rieni sy'n maethu plant oed cynradd.<br><br>Mae nifer o lyfrgelloedd lleol wedi debyn offer casglu sbwriel sydd ar gael i'w benthyg er mwyn hybu cadw'n pentrefi yn ddi-sbwriel. |
| 7. | Gohebiaeth | Mae 'One Voice Wales' yn cynnal cwrs ar Ragfyr 8fed, croeso i bawb ymuno.<br><br>Pethau Bychain – green network<br><br>Pendefynwyd gosog poster ym mhob un o flychau gwybodaeth y pentrefi yn son am 'Courier Fraud' sy'n broblem sy'n cynyddu.<br><br>Mae newidiadau i wasanaeth bws Ceredigion, ond yn bennaf i bydd yn effeithio Gogledd y Sir, oherwydd nid yw'r gwasanaeth ar gael yn Nê'r Sir. Yn anffodus yn ein hardal ni, ond y gwasanaeth Bwcabys sydd ar gael, ac nid yw'n ddelfrydol, gan fod angen bwcio'ch taith ymlaen llaw. Byddai gwasanaeth bysiau cyson yn ddefnyddiol iawn i henod yr ardal sydd ddim yn gyrru.<br><br>Mae 'Priority Service Register' ar gael gan Ofgem i gofrestru unrhyw unigolion sydd o dan anfantais/agored i niwed. Gellir targedu unigolion yn yr ardal i gael cymorth ychwanegol brys os fyddai problem gyda cyflenwadau trydan/dŵr.<br><br>Mae linc newydd ar gael ar dudalen flaen gŵefan Ceredigion os oes gan rhywun anhawsterau gyda taliadau. Cymorth Costau Byw.<br><br>Mae llythyr cais wedi dod i law yn holi am gyfraniad ariannol ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis. ( I'w drafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.)<br><br>Gosodwyd y coed Nadolig dros y penwythnpos gan Y Cynghorwyr Rob Jones, Ceri Jones, Emyr Jones a Maldwyn Lewis. Bu Arwyn ac Owain o Fferm Llangynllo yn helpuyng Nghoedybryn. Diolchwyd i'r Cyng. Sharon Thomas am drefnu'r coed, ac i'r Cyng. Ceri Jones am archebu'r goleadau. Roedd gan Maesllyn goeden yn barod ac ond angen set o oleadau oedd arnyn nhw. |

| | |
|---|---|
| 8. Cynllunio | Cais cynllunio i adeiladu estyniad i Blaencrynant, Henllan.<br>A220830 – Cafodd un cais a oedd wedi ei dderbyn ei drafod a bydd ymateb yn cael ei ddanfon |

9. Ariannol

**Taliadau**

| | |
|---|---|
| HMRC - £43.40 (PAYE) | 001683 |
| Cyflog y Clerc - £173.80 (mis 8, Mags Jones) | 001680 |
| Ashmole & Cole - £85.80 | 001681 |
| E.L.Jones printers - £33.60 | 001682 |
| Ceri Jones - £459.92 (Ad-daliad am y goleadau Nadolig) | 001684 |
| Michael Thomas -£200.00 (cost am y coed Nadolig) | 001685 |

Cynigiodd y Cyng. Sian Willams ac roedd pawb yn gytun i dalu'r cyn-glerc Margaret Sinnett Jones am fis Tachwedd (mis 8).

Nododd y Cyng. Mark Davies fod angen cysylltu gyda Ashmole & Cole i nodi fod manylion y Clerc wedi newid ac fod angen ffurflen i arwyddo cynnig Datganiad Pensiwn.

10. Materion Ardal

**COEDYBRYN** – Dadorchuddiwyd plac ger y Neuadd ar Dachwedd 19eg gan Beti George a Lynn Davies yn nodi llwybrau cerdded o fewn yr ardal.

Braf gweld y Neuadd yn cael defnydd cyson, ac yn ddiweddar mae Yoga yn cael ei gynnal bob nos Fawrth.

Diolch i Arwyn ac Owain o Fferm Llangynllo am drefnu fod y sgwâr yn Coedybryn yn cael ei olchi a'i lanhau cyn iddynt osod y goeden Nadolig yn ei lle. Ar nos sul Rhagfyr 11eg mae croeso i bawb i ymuno ar y sgwâr i oleuo'r goeden yn swyddogol. Bydd canu carolau yn ogystal a mins peis a gwin cynnes yn y Neuadd i ddilyn.

**CROESLAN** – Dim

**FFOSTRASOL** - rhai trigolion wedi cywno fod un o lampau'r stryd ddim yn gweithio. Angen y rhif ar y postyn i leoli pa lamp.

Mae Owenna Davies wedi holi os fyddai modd uwchraddio 'r adnodd bresennol sy'n dal blodau tu allan i'r Siop. Roedd Owenna wedi dweud byddai 'Ffrindiau Ffostrasol' yn fodlon cynnal y bocsys.
Mae angen trafodaeth bellach ynglŷn â harddu pentrefi'r ardal.

Mae cerrig mân ger Neuadd Ffostrasol SA44 4TE yn beryglus. Y Clerc i gysylltu. (CLIC)

Mae Siop y Pentref wedi ail agor ac mae angen trefnu fod cyflenwad o fagiau ail gylchu sbwriel a bwyd ar gael i'w casglu o'r siop. Cytunwyd fod y Clerc yn anfon neges at y Cyngor.

**PENRHIWPÂL** – Diolchwyd fod arwydd Tractorau wedi cael ei osod gyferbyn a chae y Sioe.

Mae arwydd Gwartheg yn croesi wedi cael ei ddwyn rhwng Penrhiwpâl a Coedybryn.

**BRONGEST** – Mae problem ddŵr ar y ffyrdd yn y pentref. Mae dail a cherrig mân yn rhwystro'r draeniau ac yn achosi llifogydd o bob cyfeiriad yn y pentref wedi'r glaw trwm yn ddiweddar. Mae 3 eiddo o rhiw Salem lawr i'r pentref wedi gweld llifogydd yn ddiweddar. Hefyd mae'r draeniau wedi rhwystro o Troedyraur ac o'r hen ysgol i lawr i'r pentref. (CLIC)

**RHYDLEWIS** – Mae problem ddŵr yn dod lawr rhiw Blaenwern i'r pentref. Mae draen wedi blocio ger garej y Ddol sy'n achosi llifogydd pan fod y tywydd yn arw.

Mae angen llythyr o ddiolch am y goeden Nadolig yn Rhydlewis. Y Clerc i anfon llythyr.

11. Cyfarfod Nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 3ydd o Ionawr, 2023 am 7.30yh yn Neuadd Bentref Coedybryn

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.20yh

12. Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf

Ymddiheuriadau
Datgelu Buddiannau
Cofnodion y Cyfarfod diwethaf
Cadarnhau Cofnodion
Adroddiad y Cynghorydd Sir
Gohebiaeth
Cynllunio
Cyllid –
- Taliadau
- Praesept 2023/24

Materion Ardal –
Dyddiad y cyfarfod nesaf